

**Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**YSGOL WIRFODDOL REOLEDIG
Y FAENOL
PENRHOSGARNEDD
BANGOR
GWYNEDD
LL57 2NN**

Rhif yr Ysgol: 661/3009

Dyddiad yr Arolygiad: 16 – 19 Tachwedd 2004

gan

**Mr D M Cray
Arolygydd Cofrestredig 92/16768**

Dyddiad: 21 Ionawr 2005

Dan rif contract Estyn: T/24/04P

Gellir atgynhychu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhychu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol y Faenol fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol y Faenol rhwng 16-19 Tachwedd 2004. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mr D M Cray. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhychu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhychu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- | | |
|----------------|---|
| Gradd 1 | da gyda nodweddion eithriadol |
| Gradd 2 | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| Gradd 3 | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| Gradd 4 | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| Gradd 5 | llawer o ddiffygion pwysig |

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cyd-destun	1
Crynodeb	3
Argymhellion	6
Safonau	8
Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	11
Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	11
Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	13
Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	15
Arweinyddiaeth a rheolaeth	17
Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	17
Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	19
Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	20
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	22
Cymraeg	22
Gwyddoniaeth	23
Technoleg gwybodaeth	24
Daearyddiaeth	25
Celf	25
Addysg grefyddol	27
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	28
Atodiadau	29
A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	29

B	Data a dangosyddion yr ysgol	29
C	Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	30
Ch	Sail dystiolaeth yr arolygiad	31
D	Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	32

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Mae Ysgol y Faenol, sydd wedi ei lleoli ym Mhenrhosgarnedd, nid nepell o ddinas Bangor, yn ysgol sydd o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Caiff ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol Gwynedd. Mae'r dogfennau cyn-arolygiad yn awgrymu nad oes canran uchel o'r disgyblion o dan anfantais neu amddifadedd cymdeithasol ac maent yn adlewyrchu ystod lawn o allu.
- 2 Ar hyn o bryd, mae 239 o ddisgyblion rhwng 3 a 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac fe'u derbynnir yn rhan-amser yn y mis Medi sydd yn dilyn eu trydydd pen-blwydd ac yn llawn-amser yn y mis Medi wedi iddynt gael eu pedwerydd pen-blwydd. Mae'r niferoedd wedi bod yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Daw nifer o'r disgyblion o du allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol.
- 3 Mae llai na un y cant o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim ac mae hyn cryn dipyn yn is na'r cyfartaleddau sirol (15%) a chenedlaethol (19%). Dynodir 30 (12%) yn ddisgyblion â ganddynt anghenion addysgol arbennig. Ond tua thri y cant o ddisgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae'r gweddill yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig ac mae 12 disgybl yn derbyn cymorth mewn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Dilynr rhaglen astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae tua 55% o'r disgyblion yn llwyddo i siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf.
- 4 Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr hydref 1998. Ers hynny, profwyd newidiadau niferus iawn mewn staffio'r ysgol, gan gynnwys yr apwyntiad o bennaeth newydd ym Mai 2004, dirprwy bennaeth ym Medi 2004, ynghyd â nifer o athrawon, naill ai ar gychwyn y tymor presennol, neu yn gymharol ddiweddar.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 5 Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cynnwys:
 - gwella medrau llafaredd Cymraeg y disgyblion;
 - codi safonau mewn addysg grefyddol, a
 - materion rheolaethol.
- 6 Mae'r targedau isod wedi eu gosod ar gyfer 2004/5:

Canran disgyblion cyfnod allweddol 1 sydd yn cyrraedd lefel 2 neu uwch

Adroddiad gan D M Cray
Ysgol y Faenol Ionawr 2005

Pwnc	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Targed	74%	89%	89%	89%

Canran disgyblion cyfnod allweddol 2 sydd yn cyrraedd lefel 4 neu uwch

Pwnc	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Targed	79%	85%	85%	88%

Crynodeb

- 7 Roedd y tîm arolygu yn cytuno gyda barn yr ysgol ynglŷn â'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac â'r rhan fwyaf o farnau'r ysgol am feysydd eraill ei gwaith.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

- 8 Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

	Cwestiwn allweddol	Gradd yr arolygiad
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3	Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4	Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	1
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6	Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7	Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	3

Safonau

- 9 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
- 10 Mae safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

- 11 Mae'r disgyblion fel arfer yn cyrraedd y targedau gaiff eu gosod ar eu cyfer. Does dim unrhyw dystiolaeth o dangyflawni, beth bynnag fo'u cefndir.
- 12 Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd da yn natblygiad eu medrau

cyfathrebu, mathemategol a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.

- 13 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2 yn cyrraedd safonau da yn y datblygiad o'u medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth, ar draws y pynciau. Yn gyffredinol, maent hefyd yn cyflawni safonau da yn eu medrau cyfathrebu ar draws pynciau'r cwricwlwm. Mae dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n effeithiol iawn ac mae hyn yn rhan allweddol o athroniaeth yr ysgol.
- 14 Mae'r disgyblion sydd ag iddynt anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'r targedau sydd yn cael eu gosod ar eu cyfer.
- 15 Yng nghyfnod allweddol 1, roedd canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2004 yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol mewn Saesneg, yn uwch mewn mathemateg, ychydig yn is mewn gwyddoniaeth ac yn sylweddol is mewn Cymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd y canlyniadau ar gyfer 2004 yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac ychydig yn is mewn Cymraeg. Nid oes yna wahaniaethau amlwg rhwng perfformiad bechgyn a genethod mewn un o'r cyfnodau allweddol.
- 16 O gymharu gydag ysgolion tebyg yng Nghymru, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 1 wedi bod o fewn y 50% isaf eu perfformiad, ond yn uwch na'r 25% isaf mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion wedi bod o fewn y 50% uchaf, ond tu allan i'r 25% gorau mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf.
- 17 Ymhob dosbarth, mae'r disgyblion yn dangos agweddau da iawn tuag at ddysgu. Mae eu lefelau cymhelliant yn uchel, yn defnyddio'u hamser yn effeithiol ac yn mwynhau eu profiadau addysgol.
- 18 Maent yn ymddwyn yn dda iawn. Mae'r amryfaliaeth diwylliannol o fewn yr ysgol yn rhoi seiliau cadarn iddynt i ddatblygu yn ddinasyddion aeddfed a chyfrifol.
- 19 Mae cyfartaledd presenoldeb dros y tri thymor llawn diwethaf oddeutu 94% ac mae lle i wella ar hyn. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon.
- 20 Mae'r polisïau a'r canllawiau sydd mewn lle, yn effeithiol iawn ac yn sicrhau bod gan y disgyblion ymwybyddiaeth uchel o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth credoau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol sydd o fewn yr ysgol, ac mewn cymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- 21 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
31%	48%	21%	----	----

- 22 Mae'r athrawon yn creu awyrgylch gwaith pwrpasol ac yn cynnig profiadau a gweithgareddau sy'n herio ac yn cymell y disgyblion. Ym mhob un o'r dosbarthiadau, mae'r berthynas waith rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn dda iawn.
- 23 Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu sydd yn systematig ac yn hawdd eu trin. Maent yn sicrhau cywirdeb a chysondeb ar draws yr ysgol. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae'r sylwadau yn adeiladol ac yn rhoi arweiniad eglur iddynt er mwyn gwella ansawdd eu gwaith. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni ar gynnydd eu plant yn cwrdd â'r gofynion.
- 24 Mae'r ysgol yn cwrdd yn llawn â'r gofynion cyfreithiol o safbwynt y cwricwlwm a ddarperir.
- 25 Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion moesol yn gadarn a theimla'r disgyblion y cânt eu gwerthfawrogi. Mae'r ysgol yn eu hannog i feithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a pharch at wirionedd a chyfiawnder. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n hael i ystod o elusennau yn ystod y flwyddyn.
- 26 Dewisodd y corff llywodraethol, trwy ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol, i wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer arolygu datblygiad ysbrydol y disgyblion.
- 27 Ceir partneriaethau da gyda rhieni, ysgolion a sefydliadau eraill. Mae'r rhieni yn gefnogol o'r cytundeb cartref-ysgol ac fe gafwyd ymateb da iawn iddo. Nid yw'r prospectws ysgol yn llawn gwrdd â'r gofynion.
- 28 Er fod cysylltiadau yn bodoli, mae lle i wella ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith, ynghyd a'u medrau menter.
- 29 Mae ansawdd y gynhaliath a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae gan yr athrawon a'r staff ategol ymwybyddiaeth arbennig o dda o anghenion gwahanol pob disgybl sydd yn eu gofal.
- 30 Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro prydlondeb, ymddygiad a pherfformiadau disgyblion. Mae'r gweinyddu o'r cofrestrau yn cydymffurfio â gofynion cylchlythyr 3/99 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 31 Mae'r pennaeth newydd yn darparu cyfeiriad clir a phwrpasol i waith ysgol. Mae pawb yn rhannu gwerthoedd cyffredin sydd yn hyrwyddo gwelliannau a safonau uchel.
- 32 Mae'r corff llywodraethol yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gynllunio strategol yr ysgol ac mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am faterion sydd yn effeithio at berfformiad yr ysgol.

- 33 Mae'r ysgol yn bodloni ei chyfrifoldebau parthed gofynion amserau addysgu, ond mae yna fan ddiffygion yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethol.
- 34 Mae gan yr ysgol drefniadau hunan-arfarnu cynhwysfawr iawn a systematig, sydd yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth uniongyrchol.
- 35 Mae adroddiad hunan-arfarnu, a gyflwynwyd i'r arolygwyr cyn yr arolygiad, yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda ac i raddau llai, yr hyn sydd angen ei ddatblygu. Serch hynny, mae'r dystiolaeth o fewn dogfennau, megis awdit yr ysgol o ansawdd ei darpariaeth a'r safonau a gyflawnir, ynghyd â'r cynllun datblygu, yn cefnogi'r farn bod yr ysgol yn adnabod ei diffygion yn dda ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer mynd i'r afael â hwy.
- 36 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barnau'r ysgol mewn pum allan o'r saith cwestiwn allweddol.
- 37 Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf.
- 38 Mae gan yr ysgol nifer dda o athrawon sydd â'r wybodaeth ac arbenigedd i addysgu pob agwedd o gwricwlwm yr ysgol yn effeithiol i'r disgyblion. Maent yn cefnogi'n dda y rhaglen hyfforddiant sirol a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu sgiliau a'u dealltwriaeth, ac yn y pen draw, safonau'r disgyblion.
- 39 Yn gyffredinol, mae'r lle ar gyfer y nifer disgyblion sydd ar y gofrestr, yn dderbyniol. Ceir rhai dosbarthiadau sydd braidd yn gyfyng. At ei gilydd, mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, er mae angen atgyweirio mewn mannau y ffens sydd o gwmpas cae'r ysgol. Nid yw'r toiledau yn gwbl addas ar gyfer y plant o dan bump oed, hefyd felly'r mynediad i'r anabl. Goruchwylir symudiad traffig ar dir yr ysgol yn ofalus.
- 40 Ceir cynlluniau manwl mewn lle ar gyfer y dyraniad a'r gwariant o'r swm sylweddol o arian sydd wrth gefn. Adolygir y sefyllfa ariannol yn rheolaidd. Nid yw'r model staffio cyfredol yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn erbyn costau'r ysgol.

Argymhellion

- 41 Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:
- barhau gyda'r ymdrechion i godi safonau mewn Cymraeg, fel sydd wedi ei nodi yng nghynlluniau'r ysgol ar gyfer datblygu;
 - sicrhau gwell cydbwysedd rhwng effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn erbyn costau staffio;
 - cryfhau'r cysylltiad gyda byd gwaith a medrau menter y disgyblion;

- sicrhau bod y prospectws i rieni a'r adroddiad blynyddol gan y corff llywodraethol yn cwrdd yn llawn â'r gofynion.

42 Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 43 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 44 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
- 45 Mae safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

- 46 Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac fel arfer yn cyrraedd y targedau gaiff eu gosod ar eu cyfer. Does dim unrhyw dystiolaeth o dangyflawni, beth bynnag fo'u cefndir. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r targedau yn ymestynnol ym mwyafrif y pynciau craidd, heblaw am mewn Cymraeg.
- 47 Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd da yn natblygiad eu medrau cyfathrebu, mathemategol, a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.
- 48 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2 yn cyrraedd safonau da yn y datblygiad o'u medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth, lle defnyddiant offer yn effeithiol i gywain gwybodaeth a chyflwyno syniadau a'u canfyddiadau ar draws y pynciau. Yn gyffredinol, maent hefyd yn cyflawni safonau da yn eu medrau cyfathrebu ar draws pynciau'r cwricwlwm. Mae dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n effeithiol iawn ym mywyd yr ysgol ac mae'r disgyblion yn dangos datblygiad cynyddol wrth iddynt weithio yn Gymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mae datblygu gallu dwyieithog disgyblion yn rhan allweddol o athroniaeth yr ysgol.
- 49 Mae'r disgyblion sydd ag iddynt anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'r targedau sydd yn cael eu gosod ar eu cyfer.
- 50 Yng nghyfnod allweddol 1 yn 2004, yn ôl asesiadau'r athrawon, fe gyrhaeddodd 81% o'r disgyblion lefel 2 neu uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Yn 2003 roedd y ffigwr yn 70% (Cymru 79%; Gwynedd 79%) ac yn 2002 roedd yn 86% (Cymru 80%; Gwynedd 79%). Roedd canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2004 yn debyg i'r

cyfartaleddau cenedlaethol a sirol mewn Saesneg, yn uwch mewn mathemateg, ychydig yn is mewn gwyddoniaeth ac yn sylweddol is mewn Cymraeg. Does dim patrwm o wahaniaethau amlwg rhwng perfformiad bechgyn a genethod.

- 51 Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2004, gwnaeth 81% o ddisgyblion yr ysgol gyrraedd lefel 4 neu'n uwch, fel y'u pennwyd gan ganlyniadau tasgau/profion yn y pynciau craidd o Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2003 roedd yn 91% (Cymru 71%; Gwynedd 72%) ac yn 2002 roedd y ffigwr yn 80% (Cymru 68%; Gwynedd 71%). Roedd y canlyniadau ar gyfer 2004 yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac ychydig yn is mewn Cymraeg. Nid oes yna wahaniaethau amlwg rhwng perfformiad bechgyn a genethod yn y cyfnod allweddol yma.
- 52 O gymharu gydag ysgolion tebyg yng Nghymru, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 1 wedi bod o fewn y 50% isaf eu perfformiad, ond yn uwch na'r 25% isaf mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion wedi bod o fewn y 50% uchaf, ond tu allan i'r 25% gorau mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf.
- 53 Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt sicrhau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u gwendidau ac mae'r mwyafrif llethol yn gweithio ar lefel uchaf eu gallu.
- 54 Ymhob dosbarth, mae'r disgyblion yn dangos agweddau da iawn tuag at ddysgu. Mae eu lefelau cymhellant yn uchel ac ym mwyafrif y gwersi gwelwyd brwdfrydedd amlwg. Maent yn barod i gyfrannu ac i ymateb i gwestiynu eu hathrawon ac fe ânt i'r afael â'u tasgau yn bwrpasol ac yn ddiffwdan. Maent yn defnyddio'u hamser yn effeithiol ac yn mwynhau eu profiadau addysgol.
- 55 Maent yn ymddwyn yn dda iawn i mewn a thu allan i'w gwersi ac yn deall yr hyn a ddisgwylir oddi wrthynt. Maent yn ystyriol o'i gilydd ac eraill, ac yn gwrtais a pharchus tuag at staff yr ysgol ac ymwelwyr. Mae'r amryfaliaeth diwylliannol o fewn yr ysgol yn rhoi seiliau cadarn iddynt i ddatblygu yn ddinasyddion aeddfed a chyfrifol.
- 56 Mae cyfartaledd presenoldeb dros y tri thymor llawn diwethaf oddeutu 94% ac mae'r cyfartaleddau ar gyfer y plant dan bump oed yn adlewyrchu'n agos y ffigyrau ysgol-gyfan. Maent yn cyrraedd yn brydlon. Mae lle i wella ar lefelau presenoldeb yr ysgol.
- 57 Mae'r disgyblion yn dangos medrau da wrth iddynt gydweithio gyda'i gilydd yn annibynnol o'u hathrawon. Maent yn barod i aros eu tro, i weithio'n aeddfed gydag eraill ac yn ymdopi'n hyderus gyda'r cyfleoedd a roddir iddynt. Mae'r disgyblion hynaf yn gallu cynllunio a threfnu gwaith eu hunain yn effeithiol iawn.
- 58 Mae'r polisïau a'r canllawiau sydd mewn lle, yn effeithiol iawn ac yn sicrhau

bod gan y disgyblion ymwybyddiaeth uchel o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth gredoau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol sydd o fewn yr ysgol, ac mewn cymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

- 59 Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith yn cael ei ddatblygu trwy rai cysylltiadau fel, er enghraifft, archfarchnad leol ac maent yn cyfrannu'n dda tuag at amrywiaeth o weithgareddau cymunedol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

60 Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

61 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
31%	48%	21%	---	--

62 Mae'r athrawon yn creu awyrgylch gwaith pwrpasol ac yn cynnig profiadau a gweithgareddau sy'n herio ac yn cymell y disgyblion. Ym mhob un o'r dosbarthiadau, mae'r berthynas waith rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn dda iawn. Mae'r parch sydd rhyngddynt yn cael effaith bositif ar agwedd y disgyblion tuag at eu gwaith.

63 Cynllunia'r athrawon eu gwersi yn dda a rhennir yr amcanion dysgu gyda'r disgyblion ar ddechrau pob gweithgaredd. Mae'r cynlluniau yn nodi gweithgareddau gwahaniaethol ac mae'r athrawon yn sicrhau bod yr adnoddau a'r tasgau dysgu yn cyfateb ag anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag iddynt anghenion arbennig.

64 Defnyddiant ystod o strategaethau er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion a sicrhau eu bod yn ymroi i weithio'n bwrpasol. Mae eu hymwybyddiaeth o'r angen i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu yn ogystal â'r defnydd effeithiol o'u harbenigedd a'u diddordebau, yn cael effaith bositif ar y safonau. Mae'r athrawon yn cydweithredu'n effeithiol fel tîm ac mae yna ymroddiad i gynnal a chodi safonau'r addysgu. Ceir rhai enghreifftiau o gyflwyniadau sydd yn rhy hir ac ychydig o or-gyfarwyddo o'r disgyblion.

65 Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb ac yn cynnig darpariaeth a phrofiadau cyfartal i'w holl ddisgyblion. Mae'r athrawon yn sicrhau cyfraniad llawn pob disgybl, gan gynnwys y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

66 Cynigir darpariaeth briodol i ddisgyblion ddatblygu a meithrin eu hyfedredd dwyieithog. Gwneir hyn yn fedrus, drwy gynllunio amserlen a chyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio'u medrau dwyieithog, yn cynnwys eu medrau trawsieithu, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn gosod safonau cadarn drwy ddefnyddio iaith raenus ym mhob dosbarth.

67 Mae'r weinyddes a'r cymorthyddion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol. Cydweithiant yn drefnus ac yn effeithiol wrth iddynt gefnogi'r athrawon i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr.

- 68 Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu sydd yn systematig ac yn hawdd eu trin. Maent yn sicrhau cywirdeb a chysondeb ar draws yr ysgol.
- 69 Asesir cynnydd y disgyblion yn wythnosol ar gyfer y pynciau craidd ac yn dymhorol yn y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol. Gosodir targedau personol a chwricwlaidd ym mhob pwnc, ac mae'r disgyblion yn ymwybodol ohonynt.
- 70 Mae ffeiliau'r disgyblion yn llwyddo i gynnig darlun clir o'u cynnydd a'u cyflawniad tra yn yr ysgol.
- 71 Gwneir defnydd effeithiol o ddadansoddiadau'r profion statudol er mwyn adnabod yr agweddau i'w datblygu yn y dysgu a'r addysgu.
- 72 Mae'r ffeiliau *Ymateb i waith plant* yn gynhwysfawr ac yn drefnus, ac yn fodd effeithiol o dracio cynnydd. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae'r sylwadau yn adeiladol, ac yn rhoi arweiniad eglur iddynt er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.
- 73 Mae'r disgyblion yn cael eu hybu i feithrin hunan ddisgyblaeth ac i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Deallant bwrpas asesu ac yn ddiweddar mae'r ysgol wedi dechrau ar y broses o'u hannog i hunan-asesu eu gwaith.
- 74 Mae'r adroddiadau blynyddol ar gynnydd disgyblion yn cwrdd â'r gofynion. Maent yn cynnwys sylwadau cryno ar eu cynnydd academaidd yn ogystal â chofnodi eu rhinweddau personol a chymdeithasol. Gwerthfawroga'r rhieni bolisi drws agored yr ysgol a'r cyfleoedd maent yn eu derbyn i drafod cynnydd a chyflawniadau eu plant.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 75 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 76 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae'r profiadau dysgu yn gynhwysfawr ac o ansawdd da.
- 77 Darperir cwricwlwm ar gyfer cyfnod allweddol 1 a 2 sy'n gytbwys, eang a pherthnasol Adlewyrchir hyn ym mhob cam o'r cynllunio yn ogystal ag ar lawr y dosbarth. Mae'r cynlluniau wedi'u strwythuro'n dda er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r ysgol yn cwrdd yn llawn â'r gofynion cyfreithiol.
- 78 Mae'r ysgol yn darparu mynediad cyfartal i'r cwricwlwm sy'n diwallu anghenion a diddordebau'r disgyblion. Llwydda'r ysgol i baratoi amrywiaeth eang o brofiadau tu fewn a thu allan i safle'r ysgol i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Cynigir cynhaliadau briodol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion arbennig.
- 79 Nid oes gan yr ysgol systemau ar gyfer cydlynw a monitro datblygiad medrau sylfaenol a medrau allweddol y disgyblion. Serch hynny, yn ystod yr arolygiad, gwelwyd bod yna gyfleoedd da i'r disgyblion eu meithrin a'u datblygu ar draws y cwricwlwm.
- 80 Caiff profiadau dysgwyr eu cyfoethogi a'u hehangu trwy amrediad da o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chwaraeon sy'n cynnwys gweithgareddau'r Urdd, Campau'r Ddraig a'u hymweliad preswyl â Glan Llyn. Defnyddir yn effeithiol ymwelwyr ac ymweliadau â'r amgylchedd lleol. Gwnânt gyfraniad da at ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion.
- 81 Mae'r ysgol yn cyfrannu'n hael i ystod o elusennau yn ystod y flwyddyn.
- 82 Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion moesol yn gadarn a theimla'r disgyblion y cânt eu gwerthfawrogi. Mae'r ysgol yn eu hannog i feithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a pharch at wirionedd a chyfiawnder.
- 83 Ceir partneriaethau da gyda rhieni, ysgolion a sefydliadau eraill, gan gynnwys swyddogion ac offeiriaid Esgobaeth Bangor. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio'i chysylltiadau cymunedol i ymestyn cyfleoedd dysgu'r disgyblion. Mae'r rhieni yn gefnogol o'r cytundeb cartref-ysgol ac fe gafwyd ymateb da iawn iddo. Nid yw'r prospectws ysgol yn llawn gwrdd â'r gofynion.
- 84 Caiff y gwahanol agweddau o'r fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol eu cyflwyno i ddisgyblion, gan gynnwys pwyslais da ar gyfer hybu iechyd a'u

lles corfforol. Gwelwyd amrediad o dystiolaeth yn y portffolio a gedwir gan yr ysgol.

- 85 Er fod cysylltiadau yn bodoli, mae lle i wella ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith, ynghyd a'u medrau menter.
- 86 Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo medrau dwyieithog yn ogystal â medrau trawsieithu'r disgyblion. Ceir pwyslais priodol ar astudio treftadaeth a diwylliant Cymru.
- 87 Mae gan yr ysgol bolisiâu a gweithdrefnau cadarn ar gyfer cyfleoedd cyfartal a herio stereoteipio. Daw cyfiawnder a goddefgarwch yn naturiol i'r disgyblion ac maent yn ymwybodol o'r angen i arddangos parch at eraill. Mae eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol yn y gwahanol bynciau.
- 88 Dewisodd y corff llywodraethol, trwy ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer arolygu datblygiad ysbrydol y disgyblion.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da, gyda nodweddion eithriadol

- 89 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i hunan-arfarniad yr ysgol i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn.
- 90 Mae ansawdd y gynhaliath a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae gan yr athrawon a'r staff ategol ymwybyddiaeth arbennig o dda o anghenion gwahanol pob disgybl sydd yn eu gofal.
- 91 Mae'r ysgol yn gymuned hapus, clos a gofalgar, lle mae'r disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi. Yn ystod y trafodaethau rhwng y tîm arolygu, mynegodd y disgyblion farn unfrydol am ansawdd yr ofalaeth a'u parodrwydd a'u gallu i droi yn rhwydd at y pennaeth a'r athrawon am gyfarwyddyd.
- 92 Darperir ystod o weithdrefnau effeithiol er mwyn hybu'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r dyddiaduron dyddiol yn un o'r dulliau sy'n cynnig cyfleoedd da i gynnal deialog agored rhwng y cartref a'r ysgol.
- 93 Mae rhaglenni sefydlu ar gyfer y plant meithrin yn dda iawn ac yn galluogi rhieni i rannu profiadau cyntaf eu plant yn yr ysgol. Cynhelir cyfarfod i groesawu'r rhieni a gwahoddir y plant i ymuno â'r dosbarth meithrin cyn iddynt fynychu'r ysgol. Mae'r disgyblion a ddaeth i'r ysgol fel hwyrddyfodiaid, gan gynnwys y rhai hynny o wledydd tramor, yn cael eu croesawu a'u cefnogi wrth i'w cyd-ddisgyblion, athrawon a'r cymorthyddion eu helpu i setlo i fywyd a threfn yr ysgol.
- 94 Ceir gweithdrefnau da ar gyfer monitro prydlondeb, ymddygiad a pherfformiadau disgyblion. Maent yn adlewyrchu'r cydweithrediad effeithiol sy'n bodoli rhwng y pennaeth, y staff addysgu a'r staff ategol. Mae'r gweinyddu o'r cofrestrau yn cydymffurfio â gofynion cylchlythyr 3/99 Llywodraeth Cynulliad Cymru
- 95 Ceir polisiâu cynhwysfawr a gweithdrefnau clir i sicrhau lles, iechyd a diogelwch y disgyblion. Gwneir asesiadau risg gofalus, gan gynnwys ymweliadau addysgiadol.
- 96 Caiff y gweithdrefnau amddiffyn plant eu gweithredu'n gywir gan bawb yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a lles yn gadarn iawn. Trefnir hyfforddiant cynhwysfawr i bawb sy'n gweithio o fewn yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd ragorol.
- 97 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda ac yn bodloni gofynion y Còd Ymarfer. Ceir systemau ar gyfer gwneud diagnosis cynnar o anghenion arbennig, ac ymyrraeth lle mae angen. Mae'r disgyblion yn derbyn cynhaliath dda oddi wrth yr athrawes addysg arbennig,

yr athrawon a'r cymorthyddion. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn rhoi arweiniad clir i'r athrawon.

- 98 Mae'r ysgol yn ymgynghori â'r rhieni yn rheolaidd a chynhelir adolygiadau o'r cynlluniau dwywaith y flwyddyn. Mae cyflawniadau a chynnydd y disgyblion yn cael eu monitro'n ofalus ac yn rhoi arweiniad da ar gyfer y camau nesaf.
- 99 Nodwedd ragorol o fywyd a gwaith yr ysgol yw ei darpariaeth a'i harferion ar gyfer meithrin ymagweddau positif ymhlith y disgyblion ar faterion megis cydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil, anabledd, cefndir a rhyw.
- 100 Mae'r ysgol yn cymryd camau gweithredol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn dioddef o gael eu trin yn llai ffafriol. Mae'r corff llywodraethol wedi dechrau cynllunio ar gyfer gwneud gwelliannau o ran mynediad corfforol i'r adeilad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 101 Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 102 Mae'r pennaeth newydd yn darparu cyfeiriad clir a phwrpasol ac yn ymgymryd â'i dyletswyddau yn effeithiol. Mae'r arweiniad yn gadarnhaol ac yn rhoi ymdeimlad eglur o gyfeiriad i waith ysgol. Mae pawb yn rhannu gwerthoedd cyffredin sydd yn hyrwyddo gwelliannau a safonau uchel.
- 103 Ceir ystod o bolisiau ar gyfer llywio'r gwaith, ond mae nifer dda ohonynt bellach wedi dyddio ac yn galw am eu hadolygu. Mae'r pennaeth eisoes wedi mynd i'r afael â chychwyn y gwaith. Mae gweithdrefnau ac arferion yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb ac fe welir hyn yn weithredol o ddydd i ddydd.
- 104 Rhoddir ystyriaeth deilwng i flaenoriaethau sirol ac i'r hyn ddaw oddiwrth Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 105 Mae prosesau hunan-arfarnu a gosod targedau yn elfen bwysig yn strategaethau rheoli'r ysgol. Mae'r disgwyliadau yn glir i bawb, boed yn oedolyn neu ddisgybl ac fe gaiff perfformiad ei fonitro'n gyson.
- 106 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a gwerthuso athrawon yn cyd-fynd â'r gofynion cenedlaethol. Mae'n cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol, yn cyfrannu'n dda at nodi anghenion staff ac mae hyn yn dylanwadu'n bositif ar gyflawniadau'r disgyblion.
- 107 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi profi newidiadau mawr o ran ei staff. Er gwaethaf hyn, mae wedi llwyddo i weithredu'n effeithiol a chadw ei ffocws ar sicrhau safonau. Mae strategaethau rheoli'r ysgol, ynghyd â gwaith tîm da wedi bod yn gyfrifol am y llwyddiant yma.
- 108 Ceir trefniadau addas mewn lle ar gyfer cynnal a datblygu'r athrawon sydd newydd eu cymhwysu.
- 109 Mae'r corff llywodraethol yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gynllunio strategol yr ysgol. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am faterion sydd yn effeithio at berfformiad yr ysgol. Yn hyn o beth, mae'r adroddiadau oddi wrth y pennaeth, ynghyd â'r cyflwyniadau a gânt gan gydlynwyr pynciol, yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau sydd gan amlaf, yn effeithiol a phriodol. Maent yn gefnogol iawn o'r ysgol, ond yn gweithredu fel cyfaill beirniadol, yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn cwrdd yn rheolaidd.

- 110 Mae'r ysgol yn bodloni ei chyfrifoldebau parthed gofynion amserau addysgu, ond fel y cyfeiriwyd ato ynghynt yn yr adroddiad yma, ceir man ddiffygion yn y prospectws a gaiff ei ddsbarthu i rieni, a hefyd, adroddiad blynyddol y corff llywodraethol.

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 111 Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 112 Mae gan y pennaeth a'i staff ymwybyddiaeth dda o berfformiad yr ysgol ar draws yr holl feysydd maent yn gyfrifol amdanynt. Defnyddir yr wybodaeth yn effeithiol i wneud gwelliannau ac mae'r diwylliant hunan-feirniadol sy'n bodoli, yn gwbl amlwg.
- 113 Mae gan yr ysgol drefniadau hunan-arfarnu cynhwysfawr iawn a systematig, sydd yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth uniongyrchol. Fe wneir hyn yn gywir; er enghraifft, mae graddau canfyddiadau'r ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu yr un peth â'r hyn a farnwyd gan y tîm arolygu mewn pum allan o chwe phwnc cwricwlaidd.
- 114 Gwelwyd bod y broses hunan-arfarnu yn un barhaus sydd yn cael ei chynnal yn bennaf gan yr ysgol ei hun, er, oherwydd amgylchiadau anodd y flwyddyn ddiwethaf, nid yw wedi llwyddo i gynnal rhaglen arfarnu mor drylwyr ag y byddai yn dymuno.
- 115 Trwy gyfrwng y cynllun datblygu, caiff datblygiad yr ysgol ei gynllunio'n effeithiol yng ngoleuni'r anghenion ac mae'r staff a llywodraethwyr yn chwarae eu rhan yn llawn yn y broses. Mae'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn glir, gydag adnoddau priodol wedi eu neilltuo ar gyfer eu cyflawni.
- 116 Mae'r ysgol yn gosod targedau ar gyfer y pynciau craidd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol am gyfnod o dair blynedd. Mae'r rhain yn heriol, ond yn gyraeddadwy.
- 117 Er nad oes trefniadau ffurfiol mewn lle i ystyried safbwyntiau rhieni, mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cwbl agored.
- 118 Mae adroddiad hunan-arfarnu, a gyflwynwyd i'r arolygwyr cyn yr arolygiad, yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda ac i raddau llai, yr hyn sydd angen ei ddatblygu. Serch hynny, mae'r dystiolaeth o fewn dogfennau, megis awdit yr ysgol o ansawdd ei darpariaeth a'r safonau a gyflawnir, ynghyd â'r cynllun datblygu, yn cefnogi'r farn bod yr ysgol yn adnabod ei diffygion yn dda ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer mynd i'r afael â hwy.
- 119 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barnau'r ysgol mewn pum allan o'r saith cwestiwn allweddol.
- 120 Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r targedau yn y cynllun gweithredu sy'n delio â materion allweddol yr arolygiad blaenorol, wedi'u bodloni ac mae'r camau a gymerwyd wedi cael effaith dda at safonau cyflawniad y disgyblion.

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

- 121 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i hunan-arfarniad yr ysgol i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn.
- 122 Mae gan yr ysgol nifer dda o athrawon sydd ganddynt wybodaeth ac arbenigedd i addysgu pob agwedd o gwricwlwm yr ysgol yn effeithiol i'r disgyblion. Caiff hyn ei gyfoethogi gan arbenigedd mewn meysydd penodol, fel megis addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol i rai disgyblion.
- 123 Gwneir defnydd da o gymorthyddion dosbarth a'r weinyddes feithrin sydd yn cefnogi'r addysgu i'r plant o dan bump oed.
- 124 Mae'r disgrifiadau swydd sydd gan yr athrawon a'r staff ategol yn rhoi amlinelliaid clir o'u cyfrifoldebau, gan gynnwys, lle'n briodol, y pynciau maent yn gyfrifol amdanynt.
- 125 Mae'r gweithdrefnau gweinyddol o ddydd-i-ddydd yn mynd rhagddynt yn effeithiol iawn.
- 126 At ei gilydd, mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau ar gyfer yr ystod oedran ac maent hefyd o ansawdd da. Caiff y cyfan eu cadw'n drefnus; mae pawb yn wybodus o'u lleoliad ac yn gofalu'n dda amdanynt. Nodwyd yr angen i wella'r adnoddau mewn rhai meysydd yn nogfennaeth hunan-arfarnu'r ysgol ac mae'r ysgol, trwy ei blaenoriaethau, yn cynllunio'n briodol ar gyfer hyn.
- 127 Mae'r disgyblion yn elwa'n dda o gyfraniad ymwelwyr i rannu o'u profiadau a hefyd ymweliadau addysgol i gyfoethogi eu dysgu. Gwneir defnydd da iawn o'r gymuned leol ar gyfer cyfoethogi'r cwricwlwm.
- 128 Yn gyffredinol, mae'r lle ar gyfer y nifer disgyblion sydd ar y gofrestr, yn dderbyniol. Ceir rhai dosbarthiadau sydd braidd yn gyfyng. At ei gilydd, mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, er mae angen atgyweirio mewn manau y ffens sydd o gwmpas cae'r ysgol. Nid yw'r toiledau yn gwbl addas ar gyfer y plant o dan bump oed, hefyd felly'r mynediad i'r anabl. Goruchwyli'r symudiad traffig ar dir yr ysgol yn ofalus.
- 129 Mae'r athrawon yn cefnogi'n dda y rhaglen hyfforddiant sirol a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu sgiliau a'u dealltwriaeth, ac yn y pen draw, safonau'r disgyblion. Cydweithiant fel tîm yn effeithiol iawn i rannu gwybodaeth yn y cyfarfodydd staff gaiff eu cynnal yn wythnosol. Oherwydd y newidiadau mewn staffio, ac yn dilyn o hynny, yr addasiad o gyfrifoldebau, mae rhai cydlynwyr angen hyfforddiant yn eu meysydd newydd.
- 130 Ceir cynlluniau manwl mewn lle ar gyfer y dyraniad a'r gwariant o'r swm sylweddol o arian sydd wrth gefn ac fe adolygir y sefyllfa ariannol yn rheolaidd.

- 131 Nid yw'r model staffio cyfredol yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn erbyn costau'r ysgol.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Cymraeg

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwysio diffygion

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwysio diffygion

Nodweddion da ac eithriadol

- 132 Mae sgiliau gwranddo'r disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Arddangosant y gallu i wrando'n astud ar gyflwyniadau'r athrawon, ymwelwyr, ac ar gyfraniadau ei gilydd. Medrant ddwyn i gof storïau ac ystod o wybodaeth gan ateb cwestiynau yn synhwyrol. Mae mwyafrif y disgyblion yn ynganu'n glir ac yn goslefu'n ddealladwy.
- 133 Yng nghyfnod allweddol 1, mae nifer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant. Cyfeiriant at nodweddion llyfr megis y clawr a'r awdur. Gallant ateb cwestiynau ynglŷn â phrif ddiwyddiadau a chymeriadau eu llyfrau.
- 134 Mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn foddhaol. Deallant yr angen i ysgrifennu mewn gwahanol ddulliau i ateb gofynion penodol, megis creu rhestr ar gyfer picnic Tedi. Cyfeiriant at strwythur stori a llwyddant i greu cynlluniau syml sy'n dangos dilyniant a threfn. Defnyddiant ystod o ansoddeiriau yn eu gwaith ysgrifenedig ar bortreadau. Sillafant yn weddol gywir ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o atalnodi.
- 135 Yng nghyfnod allweddol 2, mae sgiliau darllen y disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol. Mae'r mwyafrif yn darllen yn rhugl gan roi sylw dyladwy i fynegiant ac ystyr. Darllenant amrediad o ddeunyddiau gan gynnwys ffuglen, ffeithlen a barddoniaeth. Defnyddiant ystod o ffynonellau er mwyn adfer a choladu gwybodaeth gan gynnwys y Rhyngryd.
- 136 Ysgrifenna'r disgyblion at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd, gan gynnwys llunio cyfarwyddiadau, adroddiadau, ymsonau, a phortreadau. Llwyddant i ysgrifennu mewn ffurf gryno wrth lunio nodiadau a chreu pamffledi ar gyfer *Gwarchodfa Natur Conwy*. Defnyddiant ieithwedd briodol i ddwyn perswâd wrth gynllunio'r pamffledi. Ar y cyfan, maent yn deall a gwybod gwahanol ffurfiau ac amserau'r ferf. Yn dilyn eu hastudiaeth o'r darn *Breuddwyd y Bwyd*, llwydda'r disgyblion i greu cerdd ddosbarth gan ddefnyddio ystod o gymariaethau ac ansoddeiriau. Mae ymweliadau awduron yn annog disgyblion i efelychu arddull ac yn cyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig. Mae sgiliau atalnodi a pharagraffu'r disgyblion yn dda.
- 137 Mae'r disgyblion hŷn yn deall pwrpas trafod, drafftio, aiddrafftio a golygu ac mae'r elfennau hyn yn amlwg yn eu gwaith cyfredol.
- 138 Mae'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn drefnus ac yn daclus.

Diffygion

- 139 Ar y cyfan, ymatebion cwta a chyfraniadau byr a geir mewn trafodaethau dosbarth.
- 140 Nid oes gan nifer dda o'r disgyblion afael sicr ar gystrawen naturiol yr iaith.

Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da ac eithriadol

- 141 Yng nghyfnod allweddol 1, mae medrau ymholi gwyddonol y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent wedi ymchwilio yn llwyddiannus i wahanol fathau o synau a geir o gwmpas yr ysgol, gan gofnodi eu canfyddiadau. Dônt i ddeall bod seiniau yn teithio oddi wrth ffynonellau ac yn pylu wrth wneud hynny.
- 142 Gwyddant fod y bwydydd cywir yn helpu bodau dynol i gadw'n iach. Gallant ddosbarthu gwahanol fwydydd yn ôl priodweddau fel yr hyn sydd yn iach, a dim yn iach.
- 143 Maent yn adnabod ac yn gallu enwi nifer dda o ffynonellau goleuni. Gallant eu dosbarthu yn gywir yn ôl priodweddau syml. Maent wedi dod i ddeall bod yr Haul yn ffynhonnell goleuni i'r Ddaear.
- 144 Deallant fod offer pob dydd fel tegell, cloc, tortsh a haearn smwddio yn defnyddio trydan, ac yn cynhyrchu goleuni neu sain. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r peryglon sydd ynghlwm wrth drydan ac offer trydanol.
- 145 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn adeiladu'n dda ar eu medrau a'r hyn a ddysgwyd yn y cyfnod allweddol blaenorol.
- 146 Gwydda'r disgyblion iau beth yw pwrpas dannedd a'r pwysigrwydd o ofalu amdanynt.
- 147 Mae gwaith y disgyblion ar rymoedd a ffrithiant yn datblygu'n dda ac mae eu hymchwiliadau i effaith pwysau ar ffrithiant a'r math o afael sydd ar wahanol esgidiau, yn hynod drylwyr. Cymhwysant eu medrau mathemategol gyda mesur da o gywirdeb i'r gwaith hwn. Maent yn cydweithio'n dda ac mae ansawdd y trafod hefyd yn dda.
- 148 Wrth astudio trydan, daw'r disgyblion i ddeall a defnyddio'r symbolau sydd yn gysylltiedig â chylchedau, yn gywir. Trwy arbrofi, dônt i ddeall bod disgleirdeb bwlb yn cael ei effeithio gan foltedd. Dangosant fedrau rhagfynegi da, gan reoli newidynnau yn gywir.

- 149 Dengys eu gwaith blaenorol bod y disgyblion yn deall strwythur a swyddogaeth y galon. Gwyddant am effaith ymarfer corff ar guriad y galon.

Diffygion

- 150 Does dim diffygion pwysig.

Technoleg gwybodaeth

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da ac eithriadol

- 151 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o'r cyfrifiadur, gan ddatblygu'r medrau annibynnol sydd yn berthnasol i'w hoed.
- 152 Yng nghyfnod allweddol 1, maent yn defnyddio prosesydd geiriau yn effeithiol i gynhyrchu gwaith sydd yn gysylltiedig â'u themâu tymhorol.
- 153 Defnyddiant becynnau graffeg yn fedrus i bortreadu gwahanol gymeriadau maent wedi dysgu amdanynt.
- 154 Gallant gynhyrchu gwahanol fathau o raffiau yn gywir wrth gyflwyno gwybodaeth ar eu hoff ffrwythau.
- 155 Mae Modelu yn datblygu'n dda a chaiff y disgyblion gyfleoedd i gychwyn ar waith cyn-Logo wrth ddefnyddio'r Crwydryn.
- 156 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn defnyddio meddalwedd technoleg gwybodaeth yn dda i gyfleu syniadau a gwybodaeth ar ffurf testun a llun, ac i ddrafftio ac ailddrafftio gwaith.
- 157 Gwelwyd tystiolaeth eu bod yn gallu paratoi cyflwyniadau amlgyfrwng yn effeithiol.
- 158 Maent yn arddangos medrau da yn eu gwaith graffio.
- 159 Dônt i fedru anfon a derbyn e-bost.
- 160 Defnyddiant y Rhyngrwyd yn gyson i ddod o hyd i wybodaeth sydd yn berthnasol i'w gwaith dosbarth cyfredol.
- 161 Mae eu gwaith Modelu yn datblygu'n dda. Dônt i fedru llunio taenlenni a defnyddio Logo yn gywir.

Diffygion

- 162 Does dim diffygion pwysig.

Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da ac eithriadol

- 163 Yng nghyfnod allweddol 1, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o gynlluniau syml. Medrant arsylwi ar ffotograffau ac adnabod nodweddion syml. Mae eu hymweliad ag ysgol gyfagos wedi cyfoethogi eu gwaith a defnyddiant y termau a'r eirfa gywir wrth iddynt gymharu eu taith o gwmpas y ddwy ysgol.
- 164 Medra disgyblion hŷn y cyfnod dynnu llun mapiau syml gan ddefnyddio allwedd. Llwyddant i restru a chymharu'r nodweddion ffisegol a dynol a welwyd ar eu taith o gwmpas Penrhosgarnedd a Bangor. Disgrifiant y nodweddion sy'n rhoi cymeriad i'r dda leoliad gan ddefnyddio amrediad o dermau daearyddol.
- 165 Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddiant amrywiaeth o fapiau, awyrluniau ac ystod helaeth o ddata yn gyson. Mae disgyblion iau'r cyfnod yn medru defnyddio cyfesurynnau pedwar ffigwr. Defnyddiant fap ordnans er mwyn coladu gwybodaeth ac i lunio map amlinellol. Maent yn adnabod y symbolau yn dda. Medrant leoli *Gardd Fotaneg Treborth* yn ogystal â *Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru* ar fap o Gymru. Llwyddant i gymharu'r safleoedd gan nodi a disgrifio eu prif nodweddion.
- 166 Ar draws y cyfnod, cânt gyfleoedd i wneud ymchwiliadau, ac i ddefnyddio ystod o ffynonellau i gywain gwybodaeth ac i ddod i gasgliadau. Defnyddia'r disgyblion hŷn bamffledi, awyrluniau, fideos, cardiau post, mapiau ordnans, barddoniaeth a'r Rhynggrwyd er mwyn darganfod gwybodaeth ar dref Conwy. Medrant gymharu yn ogystal ag adnabod gwahaniaethau rhwng Sri Lanka a Chymru. Dengys y disgyblion wybodaeth dda o leoliad a chymeriad nifer o ardaloedd a threfi Sri Lanka.
- 167 Mae eu dealltwriaeth o bwyntiau'r cwmpawd wedi'i ddatblygu'n dda.

Diffygion

- 168 Does dim diffygion pwysig.

Celf

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 1: Da, gyda nodweddion eithriadol

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 1: Da, gyda nodweddion eithriadol

Nodweddion da ac eithriadol

- 169 Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn cynhyrchu gwaith sy'n gyson o safon uchel iawn. Defnyddiant ystod helaeth o wahanol gyfryngau a thechnegau gan gynnwys defnydd effeithiol o raglenni cyfrifiadurol.
- 170 Cânt gyfle i gyflawni gwaith ymchwiliol a datblygu eu dealltwriaeth am ddulliau amrediad o grefftwyr ac artistiaid o Gymru. Trwy eu hastudiaethau, daw'r disgyblion i werthfawrogi'r cyfraniad a wnaed gan yr artistiaid hyn i fyd celf a diwylliant Cymru.
- 171 Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddir llyfrau sgetcio yn gelfydd i gofnodi eu harsylwadau, eu gwaith ymchwiliol a'u gwaith arbrofol.
- 172 Yng nghyfnod allweddol 1, medrant greu hunan bortreadau gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a thechnegau, megis defnyddio golosg ac astudio effaith cysgodion. Llwyddant i greu gludweithiau trawiadol o'u hwynebaw. Maent wedi arbrofi gyda chreu patrymau ac mae eu dealltwriaeth o linell, tŵn a phersbectif yn cael eu hybu o oed cynnar. Arweiniodd eu hastudiaeth ar adeiladau, gan gynnwys gwaith y cynllunydd Gaudi, at gyfanweithiau trawiadol. Mae'r modelau anifeiliaid a gynhyrchwyd yn ddiweddar yn enghreifftiau da o'u gwaith tri-dimensiwn.
- 173 Yng nghyfnod allweddol 2, medra'r disgyblion iau, greu portreadau hynod effeithiol gan efelychu arddull Picasso. Mae eu hastudiaethau ar ffurf a siâp cadeiriau yn cynnwys cryn dipyn o fanylder. Llwyddant i gynllunio a chreu'n grefftus fodolau tri-dimensiwn. Efelychant steil unigryw William Morris er mwyn creu gorchudd i'w cadeiriau. Mae'r disgyblion hŷn wedi astudio celf amgylcheddol gan edrych yn benodol ar waith Tim Pugh. Mae eu gwaith gorffenedig yn gelfydd iawn. Yn dilyn eu hastudiaeth o lyfr a gwaith darluniadol Jac Jones mae'r disgyblion wedi llwyddo i gynllunio a chreu tecstilau llafar trawiadol.
- 174 Arbrofant gyda chysylltu â chyfuno ystod helaeth o ddefnyddiau i greu effeithiau gwahanol megis yn eu gwaith blaenorol ar wisgoedd a gemwaith yr Eiffiaid.
- 175 Maent yn gyfarwydd â'r broses o ymateb i'w gwaith eu hunain ac eraill. Gwnânt hyn yn gyson ac yn ddeallus.
- 176 Cyfoethogir gwaith y disgyblion drwy wahodd artist preswyl megis Cefyn Burgess i gydweithio gyda'r disgyblion.

Diffygion

- 177 Nid oes unrhyw ddiffygion amlwg

Addysg grefyddol

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da ac eithriadol

- 178 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn gwybod bod Cristnogion yn dathlu'r Nadolig trwy ddanfôn cardiau i'w gilydd. Maent yn sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng cardiau sydd yn portreadu stori'r Geni a'r rhai hynny sydd ddim.
- 179 Mae ganddynt ymwybyddiaeth o ystyr Gŵyl a gallant gyfeirio at ystod dda o wahanol wyliau.
- 180 Gwyddant am bwysigrwydd ffrindiau a bod yn gymydog da. Gwyddant fod gan Iesu ddeuddeg ffrind agos iawn oedd yn ddisgyblion iddo.
- 181 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion iau wedi ymweld â'r eglwys leol ac yn ymwybodol o'r arferion sy'n perthyn i wasanaeth y bedydd.
- 182 Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o ddathliadau o fewn Iddewiaeth, Islam, Hindŵaeth, a Christnogaeth ac mae eu hymweliadau ag addoldai lleol wedi cyfoethogi eu dealltwriaeth o wahanol grefyddau.
- 183 Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gweddi i'r Cristion ac wedi llunio gweddïau effeithiol eu hunain.
- 184 Mae astudio gwaith a hanes Dr Barnardo wedi codi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd helpu rhai llai ffodus. Deallant fod ganddynt gyfrifoldeb am rannu a gofalu am eraill, a chyfrannant yn hael iawn i gasgliadau elusennol fel Operation Christmas Child.
- 185 Dengys y disgyblion hŷn gryn aeddfedrwydd wrth drafod materion fel erledigaeth a goddefgarwch.

Diffygion

- 186 Does dim diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Fel pennaeth, staff ac aelodau o'r Corff Llywodraethol, hoffwn fynegi ein bod yn cytuno bod yr adroddiad yn un teg, cytbwys a chywir.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol y Faenol
Math o ysgol	Gwirfoddol Reoledig
Ystod oedran y disgyblion	3-11 mlwydd
Cyfeiriad yr ysgol	Penrhosgarnedd Bangor Gwynedd
Cod post	LL57 2NN
Rhif ffôn	(01248) 352162
Pennaeth	Mrs Eleri Williams
Dyddiad penodi	Mai 2004
Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol	Mr M Gash
Arolygydd Cofrestredig	Mr D M Cray
Dyddiadau'r arolygiad	16-19 Tachwedd 2004

Atodiad B

Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	10.5	38	27	26	30	39	26	32	228.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	11	1	11.2

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	24.5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	21:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	24.3
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad				
Tymor	D	CA1	CA2	Ysgol Gyfan
Haf 2004	89%	94%	95%	93%
Gwanwyn 2004	93%	95%	95%	94%
Hydref 2003	92%	94%	95%	94%

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	1%
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad C

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 1

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004			Nifer y disgyblion yn B2					31
Canran y disgyblion ar bob lefel								
			D	W	1	2	3	4
Cymraeg	Aseiad Athro	Ysgol		10	35	55		
		Cenedlaethol	1	1	11	64	23	
Cymraeg: llafaredd	Aseiad Athro	Ysgol		13	35	52		
		Cenedlaethol	1	2	12	63	22	
Cymraeg: darllen	Aseiad Athro	Ysgol		6	29	58	7	
		Cenedlaethol	1	3	17	59	21	
Cymraeg: ysgrifennu	Aseiad Athro	Ysgol		13	42	45		
		Cenedlaethol	1	3	20	65	10	
Saesneg	Aseiad Athro	Ysgol			13	61	26	
		Cenedlaethol		4	14	63	20	
Saesneg: llafaredd	Aseiad Athro	Ysgol			10	42	48	
		Cenedlaethol		3	12	63	22	
Saesneg: Darllen	Aseiad Athro	Ysgol			13	61	26	
		Cenedlaethol		4	14	55	27	
Saesneg: Ysgrifennu	Aseiad Athro	Ysgol		3	16	74	7	
		Cenedlaethol		5	14	69	11	
Mathemateg	Aseiad Athro	Ysgol			10	84	6	
		Cenedlaethol		2	11	63	24	
Gwyddoniaeth	Aseiad Athro	Ysgol		6	10	84		
		Cenedlaethol		2	10	66	22	

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	80.6%	Yng Nghymru	79%

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 2

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004							Nifer y disgyblion yn B6				31	
Canran y disgyblion ar bob lefel												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	3				3	3	3	45	42	
		Cenedlaethol				1		6	16	45	31	
	Prawf/Tasg	Ysgol		3	3			3	3	42	45	
		Cenedlaethol		2	2			5	12	38	40	
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	13					6	6	61	13	
		Cenedlaethol	1			1	1	4	18	51	25	
	Prawf/Tasg	Ysgol	13	3					10	45	29	
		Cenedlaethol	1	1	2			3	15	50	28	
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	3					6	10	36	45	
		Cenedlaethol						4	19	46	30	
	Prawf/Tasg	Ysgol		6				3	6	29	55	
		Cenedlaethol		2	1			4	18	42	33	
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	3					3	6	42	45	
		Cenedlaethol						2	13	49	35	
	Prawf/Tasg	Ysgol		3					6	39	52	
		Cenedlaethol		2				1	9	48	39	

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiath)			
yn ôl Aseiad Athro		yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	80.6%	Yn yr ysgol	80.6%
Yng Nghymru	70%	Yng Nghymru	71%

- D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad Ch

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygodd y tîm o dri o arolygwyr waith ym mhob dosbarth. Rhyngddynt buont 10 diwrnod yn yr ysgol;
- cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda llywodraethwyr, staff a rhieni;
- archwiliwyd ystod o ddogfennaeth a gynhyrchwyd gan yr ysgol, gan gynnwys enghreifftiau o waith y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y blynyddoedd cynnar a'r ddau gyfnod allweddol;
- arsylwyd ar 37 o wersi neu sesiynau;
- mynychwyd y gwasanaethau boreol;
- gwrandawyd ar ddisgyblion yn darllen ac fe'u holwyd ynghylch eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm;
- arolygwyd cofrestrau'r ysgol;
- cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a staff yr ysgol yn ymwneud â materion rheolaethol a chwricwlaidd;
- archwiliwyd cofnodion cyfarfodydd y llywodraethwyr ynghyd â dogfennau sy'n gysylltiedig â materion ariannol yr ysgol;
- arsylwyd ar y disgyblion wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol, ac yn ystod amser egwyl;

- roedd chwe rhiant yn bresennol yn y cyfarfod cyn-arolygiad a dychwelwyd 54 o holiaduron;
- cynhaliwyd cyfarfod ar ôl yr arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Arolygydd	Math	Agweddau	Pynciau/meysydd dysgu
Mr D M Cray	A Cof	Cyd-destun; Crynodeb Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1;5 a 6	Gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth, addysg grefyddol
Mrs SA Taylor	Tîm	Cwestiynau allweddol 2, 3, 4 a 7	Cymraeg, daearyddiaeth, celf
Mr W Owen	Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7	

Contractwr: Arolygiadau Deheubarth Inspections; Afallon; Heol Llandeilo; Gorslas; Llanelli; SA14 7LU.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.